



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Ebrill 2018

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 39

Llwyddo: 11

Ychydig dros chwarter yr ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, er bod sawl un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon mewn un darn, ond heb gynnal y safon honno ar hyd y papur arholiad. Braf iawn oedd gweld nifer yn cyflawni rhagoriaeth yn y papur, a phrin oedd y cynigion gwan iawn. Roedd yn eitha amlwg, felly, er na lwyddodd pawb i gyrraedd y safon angenrheidiol, fod gwell dealltwriaeth gan yr ymgeiswyr bellach o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt.

Wedi dweud hynny, siom oedd gweld cynifer o'r ymgeiswyr yn gwneud camgymeriadau bach esgeulus megis camdreiglo a chamsillafu, e.e.:

Y Cyfog Byw Cenedlaethol

mudiad chwareon

y rhan fwyaf o weithiwyr

Per byddech wedi talu

Pe'r ydych

yw'r isafswm tal (cafwyd 'â' mewn ambell fan arall gan yr ymgeisydd dan sylw)

rhaid i'ch cyflogwr didynnu

mae'r merched hyn yn lysgenhadon

os rydych yn hunan-gyflogedig

a rheiny sy'n 19 neu'n hyn

os dalwyd y gyflog

y addeddangosiad cyntaf ar y cau, cwrt, trac neu bwll

adeg cyffrous

sy'n bwysleisio

yng nglwm â'ch gwaith

neu Gyflog Byw Cenedlaethol

a chystadlaeth cyfeillgar

sy'n cyfateb e'u hoed

megis trethi ag Yswiriant Gwladol

ym myd chwaraeo'n i ferched

yn gatalydd arwyddocaol gyfer newid a thwf

Byddai mwyafrif llethol y gwallau hyn wedi cael eu hamlygu gan wirydd sillafu, a chan fod y cyfleuster hwnnw ar gael ar holl beiriannau'r arholiad, rhaid holi o ddifri pam nad yw'r ymgeiswyr yn manteisio ar y cymhorthion sydd ar gael iddynt.

Yn unol â'r arfer yn y papur Sylfaenol, roedd y ddau ddarn prawf yn ymdrin â phynciau sy'n ddigon cyfarwydd, ac yn cael tipyn o sylw yn y cyfryngau, er mwyn hwyluso gwaith yr ymgeiswyr a gwneud y profiad mor debyg i sefyllfa waith arferol â phosibl. Syndod felly oedd canfod bod llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio 'Yswiriant Cenedlaethol' (yn hytrach na Gwladol) am 'National Insurance', ac mai nifer bychan yn unig o'r ymgeiswyr oedd yn gyfarwydd â'r term Cymraeg am 'National Minimum Wage'. Aeth sawl un i drafferthion hefyd wrth geisio gwahaniaethu rhwng 'National Living Wage' a 'National Minimum Wage' (y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn eu tro). O dan amodau arholiad, mae'n ddigon dealladwy bod yr union derm yn llithro o'r cof, ac ni chafodd neb o'r ymgeiswyr eu cosbi am fethu â chofio'r term swyddogol. Ond wedi dweud hynny, rhaid sicrhau bod unrhyw gyfieithiad a gynigir mewn achos o'r fath yn ddeallus ac yn ystyrlon, ac yn anffodus, nid oedd hynny'n wir am gynigion megis 'Cyflog Gwladol Lleiafrifol' a 'Cyflog Sylfaenol Gofynnol', oedd yn dangos bod yr ymgeiswyr dan sylw heb ddeall ystyr y term gwreiddiol.

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi llwyddo i gyfleu ystyr y darnau yn llwyddiannus ar y cyfan, er bod ambell wall difrifol, fel y canlynol:

and casual, part-time and temporary workers are also eligible to receive it.

ac nid yw gweithwyr achlysurol, rhan-amser a thros dro yn gymwys i'w dderbyn.

Mae'n werth tynnu sylw at yr enghraifft hon yn benodol, gan ei bod yn gwyrddroi'r ystyr yn llwyr, ac yn dangos yn gwbl eglur pa mor hanfodol yw darllen y cyfieithiad yn fanwl cyn ei gyflwyno.

Cywair y darnau a'r gofynion cystrawennol oedd yn bennaf gyfrifol am achosi trafferthion i'r ymgeiswyr aflwyddiannus, ac roedd y ddwy elfen yn gorgyffwrdd yn aml. Teimlid bod tuedd weithiau i lynu'n rhy gaeth at batrwm y gwreiddiol, ac o ganlyniad bod y cyfieithiad yn drwsogl ac yn glogyrnog, e.e.:

as they are fondly known

fel y'u hadnabyddir yn hoffus/wresog

fel y'u gelwir yn gu/garedig

fel y'u hadwaenir yn anwesol

Roedd y frawddeg gyntaf hon yn Narn 2 wedi llorio llawer, ac roedd cyfieithiadau aflwyddiannus fel y rhai uchod yn dangos yn glir nad oedd yr ymgeiswyr wedi deall yr ergyd, a'u bod wedi cael eu rhwydo gan gystrawen y gwreiddiol. Chwa o awyr iach oedd cynigion fel y canlynol, gan eu bod yn llwyddo i gyfleu'r ystyr, ond hefyd yn dilyn patrwm naturiol y Gymraeg:

The Commonwealth Games, or Friendly Games, as they are fondly known...

Mae Gemau'r Gymanwlad, neu'r Gemau Cyfeillgar, fel y mae'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi eu galw...

Mae Gemau'r Gymanwlad, neu'r Gemau Cyfeillgar, i roi'r enw poblogaidd arnynt...

Brawddeg arall a achosodd drafferth i lawer oedd brawddeg olaf ail baragraff Darn 2:

In many instances, it is what we take away from this event that has the potential to be a significant catalyst for change and growth in all societies.

Mewn sawl achos, mae'n wir mai'r hyn a allwn ei gymryd o'r digwyddiad hwn sydd â'r gallu i fod yn gatalydd sylweddol ar gyfer newid a tyfu pob cymuned.

Ar sawl cyfrif, mae'r hyn y byddwn yn mynd ag e o'r digwyddiad â'r potensial o fod yn gatalydd arwyddocaol am newid a thyfiant ym mhob cymdeithas.

Eto, i gyfleu'r ystyr yn llwyddiannus mewn cywair a chystrawen naturiol Gymraeg roedd rhaid ymryddhau o batrymau'r iaith wreiddiol, a chyfleu'r neges yn effeithiol yn yr iaith darged, e.e.:

I bob pwrpas, mae gan yr hyn rydym yn ei ddysgu o'r digwyddiad hwn y potensial i fod yn gatalydd sylweddol ar gyfer newid a thwf ym mhob cymdeithas.

Ochr yn ochr â gwallau fel y rhai a amlygwyd uchod, wrth gwrs, cafwyd llawer o enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, e.e.:

The National Minimum Wage is the minimum pay per hour most workers in the UK are entitled to by law.

Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw'r tâl isaf fesul awr y mae gan y rhan fwyaf o weithwyr y DU hawl iddo yn ôl y gyfraith.

your employer should deduct these payments before they calculate...

dylai eich cyflogwr ddiynnu'r taliadau hyn cyn cyfrifo...

but no other company benefits count towards it.

ond ni ellir cynnwys unrhyw fuddion eraill sy'n cael eu darparu gan y cwmni.

the Commonwealth Games leaves a lasting legacy long after the last medal has been awarded.

mae Gemau'r Gymanwlad yn parhau i wneud cryn argraff am amser hir ar ôl dyfarnu'r fedal olaf.

a golden era for women's sport

oes aur chwaraeon merched

Fel y soniwyd eisoes, roedd tipyn o addewid i'w weld yn y sgrïptiau a gyflwynwyd yn y rownd hon, ond gwaetha'r modd, roedd gwallau fel y rhai a amlygwyd yn atal rhai ymgeiswyr addawol rhag cynnal y safon angenrheidiol a llwyddo yn yr arholiad. Fel mae'r diffiniad yn egluro, bwriad Aelodaeth Sylfaenol yw adlewyrchu gwaith ymgeiswyr sy'n dal i gael eu goruchwylio, a gobeithio bydd yr ymgeiswyr a fu'n aflwyddiannus y tro hwn yn

manteisio ar bob cyfle i gael eu mentora a'u hyfforddi, er mwyn meithrin yr addewid a welwyd yn eu gwaith.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 21

Llwyddo: 9

Braf oedd gweld bron hanner yr ymgeiswyr yn llwyddo y tro hwn, er mai un yn unig a ddaeth yn agos at gyflawni rhagoriaeth yn y ddau ddarn. Wedi dweud hynny, fel yn holl bapurau eraill y rownd hon, gwelwyd enghreifftiau niferus o fethu â deall gwir ystyr y gwreiddiol. Enghraifft drawiadol o hynny oedd y gair 'gweiniaid' yn y frawddeg gyntaf oll:

Dywedodd Gandhi mai gwir fesur unrhyw gymdeithas yw'r modd y mae hi'n trin ei gweiniaid...

I gyfleu'r ystyr yn llwyddiannus yma, roedd angen defnyddio mwy nag un gair yn y Saesneg, a dewis rhywbeth fel 'weakest members' neu 'vulnerable citizens', ond gwaetha'r modd, yn lle hynny, cafwyd ffurfiau amrywiol fel 'people/servants/sick/administrators' oedd yn anaddas o ran ystyr a chywair, ac yn amharu ar lif y cyfieithiad o'r cychwyn cyntaf.

Roedd ail hanner y frawddeg agoriadol hon hefyd wedi achosi trafferth i sawl ymgeisydd:

ac fe ddylai gosodiad o'r fath fod mor amlwg nes ei fod yn ystrydeb am y rhesymau gorau and an assertion of such should be so apparent until it is an axiom for the best reasons and such a statement should be so evident until it is a cliché for the best of reasons

such statement should be made so visible that it becomes a cliché for the best of reasons and a statement such as that should be so obvious that it becomes a stereotype for the best reasons

Mae enghreifftiau fel y rhain yn aflwyddiannus o ran ystyr a chywair, ac yn dangos diffyg dealltwriaeth o batrymau'r Saesneg.

Er bod ambell ymgeisydd wedi llwyddo i lunio cyfieithiad llwyddiannus yn y fan hon, e.e. *such a statement should be so glaringly obvious that it is a cliché for all the right reasons/ such a statement should be so obvious that, for the best reasons, it becomes a cliché* roedd mwyafrif y cynigion yn drwsgl, ac yn cymylu'r ystyr.

Dyma rai enghreifftiau eraill o fynegiant chwithig yn y ddau ddarn, e.e.:

a aeth i ddŵr poeth

who stepped into hot water (yn hytrach na 'found himself in hot water')

babanod sydd â rhai cyflyrau

babies that have some conditions (yn hytrach na 'certain conditions')

ym myd y cyfryngau

in the world of the media (yn hytrach nag 'in the media')

i siarad ar y teledu

to talk on the television

a hynny mewn cyfnod

and that being in a period

i lenwi'r swyddi

to satisfy the jobs

Mae enghreifftiau fel y rhain yn glynu'n rhy agos at batrwm y gwreiddiol, ac o ganlyniad yn methu â tharo deuddeg yn yr iaith darged.

Wedi dweud hynny, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu cryf yn y ddau ddarn yn ogystal, e.e.:

am y rhesymau gorau

for all the right reasons

sylwadau sarhaus

derogatory comments

ei hensyniad gwarthus

her disgraceful/despicable insinuation

lle amlwg yn y gymuned

a prominent place in the community

patrymau defnyddio'r iaith

patterns of language use

yn gwyllo pob math o bethau

watching all kinds of stuff

Roedd enghreifftiau fel y rhain yn llwyddo oherwydd eu bod nid yn unig yn cyfleu ystyr y gwreiddiol, ond yn gwneud hynny mewn ffordd oedd yn naturiol i'r iaith Saesneg, ac felly'n argyhoeddi'r darllenydd. Roedd arddull lithrig, hawdd ei darllen i'r ddau ddarn gwreiddiol, felly er mwyn llunio cyfieithiad llwyddiannus, roedd yn hanfodol bwysig bod y trosiad yn llifo'r un mor hwylus.

Fel y soniwyd eisoes, roedd elfennau addawol yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, felly gobeithio y bydd pawb ohonynt yn manteisio ar bob cyfle i gael hyfforddiant a goruchwyliaeth er mwyn datblygu eu sgiliau ymhellach, gan nad yw Aelodaeth Sylfaenol y tu hwnt i gyrraedd neb ohonynt.

Wrth gloi fy adroddiad, fel bob amser, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, y marcwyr a'r dirprwyon am bob cefnogaeth a chymorth.

Fiona Gannon
Mehfin 2018